Sant Cadog: y chwech ganrif

Y sant a'r llygoden

Cydweithio / ymddiriedaeth / gofal

Pan fyddwch chi'n dod adref o'r ysgol, beth ydi'r peth cyntaf fyddwch chi'n ei wneud? Rhedeg i'r gegin am rywbeth i'w fwyta? Creision, bisgedi, siocled a rhywbeth i'w yfed! Oes, mae digon o bethau i'w bwyta yn y gegin. Ond beth petai'r gegin yn wag a dim bwyd yno o gwbl? Amser maith yn ôl roedd bwyd yn brin a phobl yn marw o newyn. Dyma stori am sant a ddaeth o hyd i neuadd yn llawn o dywysennau gwenith.

Roedd Cadog yn byw ar ei ben ei hun mewn ystafell yn y fynachlog. Un gyda'r nos clywai sŵn crafu yng nghornel yr ystafell. Yn dawel bach cerddodd i gyfeiriad y sŵn. Gwelodd lygoden fach yn cario tywysen o wenith yn ei cheg. Pan welodd hi Cadog rhedodd i mewn i'r twll yn y wal. Ymhen rhai munudau daeth allan o'r twll a rhedeg o dan y drws. Arhosodd Cadog i'w gwylio. Daeth yn ôl a thywysen o wenith yn ei cheg a rhedeg unwaith eto i'r twll yn y wal. Pan ddaeth allan o'r twll y tro hwn, daliodd Cadog hi a chlymodd ddarn o linyn am ei choes. Dechreuodd y llygoden fach chwarae o gwmpas yr ystafell. Neidiodd i fyny ar wely Cadog.

Yn ystod oriau'r nos, pan fyddai Cadog yn cysgu, fe fyddai'r llygoden fach yn mynd i gysgu i'w thwll yn y wal. Ond drwy'r amser, roedd y llinyn tenau hir am ei choes. Yn ystod oriau'r dydd byddai'r llygoden fach yn crwydro allan i'r caeau o gwmpas y fynachlog. Yn aml iawn, byddai Cadog yn gwylio'r llygoden fach yn casglu'r tywysennau gwenith ac yn eu cario fesul un i'w thwll yn y wal.

Un diwrnod penderfynodd Cadog ei fod am fynd i weld ble'n union roedd y llygoden fach yn byw. Efallai bod ganddi deulu o lygod bach, bach. Mae'n siŵr ei bod yn cario'r tywysennau gwenith i'w theulu yn y wal, meddyliodd Cadog. Bu wrthi'n cloddio a chloddio am rai oriau, ond heb ddarganfod dim. Bu wrthi am ddyddiau. Bob nos byddai'n cloddio'n ddyfnach ac yn ddyfnach.

Yna, un noson, ar ôl bod wrthi'n galed, cloddiodd drwodd i ystafell fawr. Nid ystafell oedd hi mewn difri ond neuadd fawr. Yno, yn y neuadd, roedd storfa fawr o fwyd. Yn ei fraw, rhedodd

Cadog i ddweud wrth y mynaich eraill oedd yn byw yn y fynachlog.

"Dewch efo mi," meddai wrth y mynaich eraill, "i chi gael gweld beth sydd yr ochr arall i'r ystafell lle rydw i'n byw."

Dilynodd y mynaich eraill ef yn araf. Fesul un dyma nhw'n cyrraedd y neuadd fawr. Roedd digon o wenith yn y neuadd i fwydo'r mynaich oedd yn byw yn y fynachlog. Roedd digon o wenith i fwydo'r holl bobl oedd yn byw yn y fro i gyd. Roedd tomenni ar domenni o wenith yn y neuadd. Roedd yr Abad, sef y prif fynach, yn falch iawn o glywed am y llygoden fach.

"Meddyliwch," meddai'r Abad, "fod llygoden fach wedi helpu'r mynaich a phobl yr ardal i gyd." Diolchodd yr Abad i Cadog hefyd am sylwi mor fanwl.

"Ym mhob dim rhowch ddiolch..."
1 Thes. 5:18

O Dduw,
gwna fi yn berson sy'n sylwi
ar yr hyn sy'n digwydd o'm cwmpas.
Amen.

Ydych chi yn berson sy'n sylwi ar bethau o'ch cwmpas?
Pa mor bwysig ydi dysgu sylwi?